# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 28AIN CHWEFROR 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau i Oedolion), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd), M. Lloyd (Pennaeth Gwasanaethau Peirianneg Dros Dro), P. Lewis (Pennaeth TG a Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Dros Dro), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), B. Griffiths (Rheolwr Gwasanaethau - Gwasanaethau Cymdeithasol), D. Whetter (Pennaeth Adfywio Dros Dro), C. Jones (Cydlynydd y Fforwm Ieuenctid) a A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid: Curtis Gingell a Dylan Thomas.

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu) a L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), Mrs N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol), a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros - Cymunedau).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd S. Morgan ddatgan diddordeb ar ddechrau’r cyfarfod yn ymwneud ag eitem agenda 10 – Cyfleoedd Cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 4.4 – Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni a Thŷ Du, Nelson. Mae’r manylion wedi eu cofnodi gyda’r eitem briodol.

**3. COFNODION CABINET – 14EG CHWEFROR 2018**

Yn amodol ar newid i gofnod rhif 10 - *Newidiadau* i *Awdurdodiad Swyddogion O fewn Adran Diogelwch y Cyhoedd,* o ran y dylai ddarllen Cynigion Cyllid 2018/19 a Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig 2018/2023, a hefyd yr argymhellion a gyfeirir ynddo, sef:

*PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -*

*(i) nodi'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth gan y Cabinet a chyfeirio'r newidiadau i'r Cyngor i'w penderfynu;*

*(ii) bod Cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Cyngor yn cael eu diwygio drwy ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;*

*(iii) bod Swyddogion o fewn Adran Diogelwch y Cyhoedd yn cael eu hawdurdodi o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.*

Dylai ddarllen:

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog yr argymhellir i'r Cyngor bod: -

(i) y cynnig fod y grantiau yn cael eu trosglwyddo i mewn/allan o Ddatganiad Ariannol a'r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn cael ei basio'n uniongyrchol i'r gwasanaethau hynny maent yn ymwneud â hwy (paragraffau 4.2.2, 4.2.3 a 4.2.4);

(ii) yr arbedion arfaethedig ar gyfer 2018/19 sef cyfanswm o £6.736 miliwn fel yr osodwyd allan ym mharagraff 4.3.3 ac Atodiad 3 o'r adroddiad i'w cytuno;

(iii) dylid cynorthwyo'r cynnig i ddefnyddio £830mil o falansau Rheoli Lleol Ysgolion i gefnogi buddsoddiad parhaus gydag ysgolion mewn adeiladau ysgol yn y tymor byr i'r tymor canolig (paragraff 4.3.6);

(iv) nodir y bydd angen nodi arbedion amgen o £107mil yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 os na fydd y bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn mynd yn ei flaen (paragraff 4.3.9);

(v) y cynnig i drosglwyddo £547mil o gyllidebau Cyllido Cyfalaf i'r gyllideb ysgolion dirprwyedig i gynorthwyo ysgolion gyda chostau ychwanegol disgwyliedig o ddyfarniad cyflog athrawon yn 2018/19 (paragraff 4.4.5) i gael ei gefnogi;

(vi) cynigion y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2018/19 o £332.043 miliwn fel y nodir yn yr adroddiad a grynhoir yn atodiad 1 i'w cytuno;

(vii) defnydd arfaethedig o falansau'r gronfa gyffredinol fel y manylir yn Atodiad 5 o'r adroddiad i'w gytuno;

(viii) y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21 fel y nodir yn Atodiad 6 o'r adroddiad i'w chytuno;

(ix) y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf fel y manylir yn Atodiad 7 o'r adroddiad a'r gofyniad arbedion dangosol o £40.822 miliwn am gyfnod o bum mlynedd o 2018/19 tan 2022/23 i'w nodi.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 14eg Chwefror 2018.

**MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

## 4. BLAENORIAETHAU'R FFORWM IAU A'R FFORWM IEUENCTID

Croesawodd y Cabinet gynrychiolwyr o'r Fforwm Ieuenctid a hysbysodd Aelodau o'r materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforwm Iau a Fforwm Ieuenctid y Gwasanaethau Ieuenctid.

Cafodd trosolwg ei ddarparu o Gynhadledd y Fforwm Ieuenctid ym mis Hydref 2017 a chyfarfod y Fforwm Iau ym mis Tachwedd 2017, lle mae Plant a Phobl Ifanc wedi nodi materion sy'n bwysig iddynt ac wedi pleidleisio ar Fater Blaenoriaeth ar gyfer 2018. Cafodd y broses a gytunwyd yn flaenorol sy'n dilyn nodi'r materion ei gosod allan yn yr adroddiad. Trafodwyd strwythur y Fforymau Ieuenctid ac Iau ac esboniwyd eu bod yn cael eu trefnu o amgylch pum thema'r Cynllun Integredig Sengl. Mae Cynrychiolwyr y Fforwm Iau yn 7-11 mlwydd oed a Chynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid yn 11-25 mlwydd oed.

Cynghorwyd y Cabinet bod yng Nghynhadledd Flynyddol y Fforwm Ieuenctid, mae Pobl Ifanc yn y cyfle i archwilio'r materion a godwyd yn flaenorol drwy ymgynghoriad ar draws y fwrdeistref. O archwilio'r holl themâu o fewn cyd-destun bywydau pobl ifanc, mae pobl ifanc yn adnabod a chytuno ar fater blaenoriaeth ar gyfer pob thema, manylion a nodir ym mharagraff 4.1.2 a 4.1.3 yn yr adroddiad. Mater Blaenoriaeth Cyffredinol y Fforwm Ieuenctid yw Bwlio ac i gynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn a ystyrir fel bwlio a rhoi gwybodaeth i bobl ynglŷn â sut i ddelio â bwlio. Mater Blaenoriaeth Cyffredinol y Fforwm Iau yw Digartrefedd lle ystyrir bod angen mwy o gymorth ar gyfer pobl ddigartref.

Eglurwyd bod y Fforwm Ieuenctid wedi bod yn gweithio'n galed iawn gyda Swyddogion, yn enwedig Sarah Ellis a'i Thîm mewn perthynas â datblygu strategaeth atal bwlio i'w chyflwyno ym mhob ysgol. Nododd y Cabinet ei fod yn ymddangos bod mwy o fwlio wyneb i wyneb nag sydd ar gyfryngau cymdeithasol, serch hynny mae'r Fforwm Ieuenctid eisiau 'rhwystro' bwlio seibr oherwydd eu bod yn teimlo y dylai hyn gael ei leihau.

Diolchodd y Cabinet i'r Fforwm Ieuenctid am fynychu'r cyfarfod a darparu eu cyflwyniad addysgiadol a phroffesiynol. Cadarnhaodd yr Aelodau y bydd y Cabinet yn gwneud popeth y gallai i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid a dylai'r polisi gael 'ei arddangos' i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth. Awgrymwyd efallai y gallai'r Fforwm Ieuenctid gysylltu â sefydliadau fel Stonewall Cymru, sy'n ymgyrchu dros gydraddoldeb pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ledled Prydain, wrth symud ymlaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) bod y Fforwm Ieuenctid yn mynd i'r afael â'u Mater Blaenoriaeth o Fwlio yn cael ei gefnogi;

(ii) bod y Fforwm Iau yn mynd i'r afael â'u Mater Blaenoriaeth o Ddigartrefedd yn cael ei gefnogi.

## 5. HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG AR GYFER CAEL GWARED AR WASTRAFF HEB AWDURDOD

Hysbysodd yr adroddiad y Cabinet ynghylch cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig newydd i ddelio â thipio anghyfreithlon o dan Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017 (y cyfeirir ato yn yr adroddiad fel y Rheoliadau). Roedd yr adroddiad yn ceisio am gymeradwyaeth gan y Cabinet i osod lefel y gosb benodol i'r mwyafswm o £400 gyda dim disgownt am daliad cynnar.

Esboniwyd bod tipio anghyfreithlon yn drosedd o dan Adran 33(1) o'r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r Ddeddf yn gwahardd, yn amodol i rai eithriadau, adneuo gwastraff rheoledig neu wastraff echdynnol mewn nae ar unrhyw dir heblaw yn unol â chaniatâd amgylcheddol. Mae person sy'n troseddu o dan adran 33 (1) yn atebol am euogfarn:

- Yn llys yr Ynadon i gael ei garcharu am 12 mis a dirwy i uchafswm o £50,000, neu'r ddau.

- Yn llys y Goron i gael ei garcharu am 5 mlynedd a dirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i fewnosod adran newydd 33ZB. Mae hyn yn galluogi awdurdodau casglu gwastraff Cymru i gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fach. Efallai na fydd cosbau penodedig o'r fath yn llai na £150 a ddim yn fwy na £400. Os nad oes cyfanswm yn cael ei benodi, bydd y ddirwy yn £200. Gall disgownt fod yn gymwys am daliad cynnar. Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r ffigwr o £400 ac os oedd hyn yn cynnwys y gost o gael gwared ar dipio anghyfreithlon, ac os na a ellir ychwanegu'r ffi honno at y ffigwr hwn. Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 4.7 yn yr adroddiad ac roedd y ffigyrau a ddarparwyd mewn perthynas ag achosion llys diweddar a'r dirwyon a'r costau a ddyfarnwyd. Eglurwyd y byddai'r ffigwr o £400 am hysbysiad cosb benodedig yn fudd net i'r Cyngor . Mae'r Cabinet yn teimlo y byddai hysbysiad cosb benodedig o £400 yn anfon neges gryfach i droseddwyr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gytuno a'i eilio, yn ogystal â'r argymhelliad yn yr adroddiad, fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet mewn perthynas ag adennill costau glanhau troseddau tipio anghyfreithlon, yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) rhoi cosb benodedig am dipio anghyfreithlon ar y lefel uchaf o £400 heb unrhyw ddisgownt ar gyfer taliad cynnar;

(ii) cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet mewn perthynas ag adennill costau glanhau troseddau tipio anghyfreithlon.

## 6. DAD-DROSEDDU PARCIO – ADRODDIAD CAM 1

Roedd yr adroddiad yn gofyn am farn y Cabinet am y canlyniadau o'r gwerthusiad opsiynau a wnaed hyd yn hyn ar oblygiadau cymryd Pwerau Gorfodi Parcio Sifil a sut y dylid datblygu'r canfyddiadau hyn ymhellach, er mwyn cynnig y model darparu gwasanaeth mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon i'r Cyngor.

Nododd y Cabinet, ar 16eg Chwefror 2017, cadarnhaodd Heddlu Gwent yn ysgrifenedig i bob un o 5 Awdurdod Lleol Gwent eu bod yn bwriadu "tynnu ei swyddogion a'i staff o weithgareddau sy'n golygu gorfodi cyfyngiadau parcio" o'r 1af o Ebrill 2018. Gwent yw'r unig ardal yng Nghymru lle nad yw'r awdurdodau lleol wedi cymryd pwerau Gorfodi Parcio Sifil, ac mae'r cyfathrebu gan Heddlu Gwent bellach yn gorfodi'r awdurdodau lleol yn yr ardal i benderfynu p'un a ddylid cymryd y pwerau hyn ai peidio.

O ganlyniad i hyn, mae'r pum awdurdod lleol wedi comisiynu astudiaeth wedyn i ymchwilio i ddichonoldeb creu Ardal Gorfodi Sifil ac Ardal Gorfodi Arbennig ar draws pob ardal weinyddol ac ar gyfer Gwent gyfan. Mae hyfywedd ariannol y dewisiadau hyn yn dangos darlun cymysg ar draws y pum awdurdod lleol, fodd bynnag, ar gyfer CBSC, mae'n dangos y gall pob opsiwn greu gwarged blynyddol ond yn annhebygol o gynhyrchu digon o incwm i dalu am y costau sefydlu ar ôl 5 mlynedd. Mae cyfarfod rhwng Awdurdodau Lleol Gwent (ALlau) a Heddlu Gwent wedi darganfod y bydd Heddlu Gwent yn parhau i ymgymryd â gorfodi tan fis Rhagfyr 2018. Maent yn barod i weithio'n agos gyda'r ALlau ymhellach os nad ydynt mewn lle i

fabwysiadu'r pwerau Gorfodi Parcio Sifil ar hyn o bryd.

Cynghorwyd y Cabinet pe bai Caerffili yn mabwysiadu Gorfodi Parcio Sifil, bydd angen sicrhau bod y cyllid cyfalaf perthnasol o £390 mil a nodwyd yn yr adroddiad ar gael i symud y gwaith sydd ei angen ymlaen i alluogi'r pwerau perthnasol i gael eu trosglwyddo i GBS Caerffili. Ar hyn o bryd mae yna ddwy gronfa wrth gefn o Wasanaethau Peirianneg mewn perthynas â chontract cynnal a chadw Ffordd Menter Sirhywi a'r gronfa wrth gefn cynnal a chadw gaeaf sy'n cynnwys tua £800,000 y gellid ei ystyried fel opsiynau ariannu. Mae angen penderfyniad cychwynnol i symud yr adolygiad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ymlaen, a amcangyfrifir tua £70 mil- £80 mil a gellid ystyried y cyllid sy'n weddill o fewn adroddiad cam 2 sydd i'w ddilyn.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Aelodau am fanteision ac anfanteision Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil a chydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill Gwent.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gytuno a'i eilio, yn ychwanegol at yr argymhelliad yn yr adroddiad, y dylid cyflwyno adroddiad pellach i amlinellu'r cynllun cyflawni gan gynnwys effeithiau, a fydd hefyd yn cynnwys rôl y Wardeniaid Diogelwch Cymunedol a phenderfynwyd ariannu adolygiad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig er mwyn i'r gwaith paratoi Gorfodi Parcio Sifil symud ymlaen gyda chyllid o tua £80 mil cael ei wneud ar gael o gronfeydd wrth gefn yr adran Beirianneg i ariannu'r adolygiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) dylid mabwysiadu'r model cyflwyno a fyddai’r sefyllfa orau i ddiwallu anghenion y fwrdeistref sirol a'i dinasyddion a bod ymagwedd gydweithredol ag Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer y trefniadau cefn swyddfa i gael ei wneud, gyda Gorfodi ar y stryd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'w wneud yn fewnol gan Swyddogion y Cyngor;

(ii) cyflwyno adroddiad pellach sy'n amlinellu'r cynllun cyflawni gan gynnwys effeithiau, a fydd hefyd yn cynnwys rôl y Wardeniaid Diogelwch Cymunedol;

(iii) cymeradwyo adolygiad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig er mwyn paratoi Gorfodi Parcio Sifil i symud ymlaen a bod cronfeydd Peirianneg wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu'r adolygiad uchod (tua £80 mil).

## 7. RÔL Y SWYDDOG DIOGELU DATA STATUDOL

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i greu rôl statudol newydd y Swyddog Diogelu Data fel y rhagnodir gan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE sydd i ddod.

Hysbyswyd y Cabinet y byddai’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym ar 25ain Mai 2018. Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn gwella diogelwch presennol ar gyfer data personol, gan gyflwyno gofynion newydd a chynyddu'r uchafswm cosb ariannol am dorri data o £500,000 i £20 miliwn neu 4% o drosiant blynyddol byd-eang.

Yn ogystal, mae gofyniad cyflwyno rôl statudol newydd y Swyddog Diogelu Data ar y Cyngor. Ar hyn o bryd, y Rheolwr Data sy'n gyfrifol am gydymffurfio â diogelu data yw'r Cyngor fel corff corfforaethol ac nid gweithiwr penodol o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am ddiogelu data wedi'i ddirprwyo i'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol a oruchwylir gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a bydd y rôl statudol newydd yn adeiladu ar y sylfaen gadarn bresennol hon.

I sicrhau’r Cyngor fel Rheolydd Data bod y wybodaeth yn cael ei rheoli'n gyson a bod risgiau'n cael eu lleihau ar draws pob gwasanaeth Cyngor, mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a’r ddarpariaeth arbenigedd llywodraethu gwybodaeth yn swyddogaeth

gorfforaethol ar hyn o bryd. Gan fod hyn yn wir, mae'n ymddangos yn briodol bod y Swyddog Diogelu Data wedi'i leoli o fewn y swyddogaeth gorfforaethol hefyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i ychwanegu rôl y Swyddog Diogelu Data i'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion.

## 8. AILBROFFILIO'R RHAGLEN SATC A RHAGLEN CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2018/2019

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ailbroffilio rhaglen SATC gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth lawn erbyn 2020.

Amlinellodd yr adroddiad fod cynnydd da wedi parhau gyda'r rhaglen gyflwyno SATC yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, bu'n rhaid adolygu'r rhaglen ac ystyried amgylchiadau sy'n newid er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn erbyn 2020. Nodwyd manylion y rhaglen a adolygwyd yn adroddiad y Swyddog.

Yn dilyn Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017, ymrwymwyd i gwblhau 40% o'r gwaith allanol a 75% o'r gwaith mewnol erbyn Mawrth 2018. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017, roedd 33% o'r gwaith allanol wedi ei gwblhau ac roedd 70% o'r gwaith mewnol wedi ei gwblhau. Mae ymrwymiad pellach wedi cael ei wneud i Lywodraeth Cymru fod 80% o'r gwaith allanol a 94% o'r gwaith mewnol i gael eu cwblhau erbyn Mawrth 2019. Sefydlwyd rhaglen waith ar wahân ar gyfer y cynlluniau tai lloches gyda chytundeb y byddai'r gweithlu mewnol yn ymgymryd â gwaith mewnol ac allanol. Mae'r gwaith wedi ei raglennu i'w gwblhau erbyn 2020 ac felly mae'n ofynnol i gael ei ail-broffilio ar yr adeg hon.

Diwygiwyd cyllideb y Rhaglen Cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar gostau gwirioneddol gywir diweddar a ragamcanir ymlaen i ddiwedd y rhaglen. Mae'r data hyn bellach yn disodli amcangyfrifon Savill blaenorol ac yn dangos bod y cynllun busnes tai a'r Rhaglen SATC yn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol.

Bu angen ailbroffilio oherwydd llithriad, fodd bynnag, mae'r materion hyn wedi'u datrys bellach a sicrhawyd y Cabinet y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn amserlen Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried bwrw ymlaen â'r eiddo a gynlluniwyd i'w wneud gan gontractwr allanol yn ystod 2018/19 i 2019/20, lle byddai gan y gweithlu mewnol y gallu i ymgymryd â'r gwaith. Gyda nifer ymylol o eiddo a raglennir ar gyfer y flwyddyn olaf, gall fod hyder y gellir cwblhau'r gwaith mewnol erbyn Mawrth 2020. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflawni SATC yw Rhagfyr 2020 sy'n darparu hyblygrwydd ychwanegol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD y dylid diwygio'r adroddiad Ail-broffilio SATC am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i nodi bod yr eiddo y bwriedir ymgymryd â hwy yn 2018/19 yn cael ei gyflwyno yn ôl i 2019/20 i'r gweithlu mewnol i gyflawni'r gwaith, cael ei gymeradwyo.

## 9. POLISI CLUDIANT A GYNORTHWYIR GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet o'r Polisi Cludiant a Gynorthwyir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynghorwyd y Cabinet mai cludiant a gynorthwyir yw'r ddarpariaeth cludiant ddewisol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi unigolion i gael mynediad i'r gwasanaeth cymorth cymunedol y cafodd unigolion eu hasesu fel rhai sy'n gymwys i fynychu (fel gwasanaethau dydd). Mae'r polisi wedi'i ddrafftio o ganlyniad i ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau newid y ffordd y maent yn gweithio gyda phobl ac i hyrwyddo ffocws ar gefnogi pobl i ddatblygu dulliau byw nad ydynt yn dibynnu ar wasanaethau statudol.

Nod y Polisi Cludiant a Gynorthwyir newydd yw darparu fframwaith clir i ymarferwyr asesu a chefnogi unigolion i nodi dulliau o hyrwyddo annibyniaeth wrth gael mynediad i gludiant. Bydd y polisi yn helpu nodi'r hyn sydd ar gael yn y gymuned leol a darparu dull cyson tuag at bennu cymhwyster ar gyfer cludiant a ariennir lle mae wedi'i nodi fel gofyniad i gael mynediad i wasanaethau a gomisiynir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y fframwaith polisi hefyd yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau eraill y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cludiant ledled rhanbarth Gwent.

Gofynnodd y Cabinet am amserlen o 28 diwrnod ar gyfer asesiadau gael ei gynnwys a dyddiad gweithredu'r polisi gael ei newid i fis Ebrill 2018, ar gyfer pob cais newydd am gludiant a wneir i Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Amlinellwyd prif elfennau'r polisi o fewn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r Polisi Cludiant a Gynorthwyir.

## 10. CYFLEOEDD CYLLID CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP 4.4 - YSTÂD DDIWYDIANNOL Y LAWNT, RHYMNI A THŶ DU, NELSON

Fe wnaeth y Cynghorydd S. Morgan ddatgan diddordeb am yr eitem gan ei fod yn byw yn agos at un o'r safleoedd a gyfeirir ato yn yr adroddiad a gadawodd yr ystafell a ni wnaeth gymryd rhan yn y ddadl.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar gyfleoedd sy'n bodoli i wneud cais am arian Ewropeaidd ar gyfer darpariaeth fesul cam o unedau cyflogaeth mewn dau safle yn y Fwrdeistref Sirol, sef, Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt yn eiddo i'r Cyngor yn Rhymni a thir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru (LlC) Tŷ Du yn Nelson.

Hysbyswyd y Cabinet bod y Cyngor wedi ceisio am gyllid grant allanol o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Blaenoriaeth 4, Amcan Strategol 4 i gyflwyno cam cyntaf yr unedau cyflogaeth a'r seilwaith cysylltiedig ar y ddau safle. Er mwyn tynnu sylw at yr arian allanol hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadarnhau arian cyfatebol a hefyd sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Du, Nelson trwy ymrwymo i Gytundeb Cydweithio/Datblygu ffurfiol. Gosodwyd manylion o'r ddau brosiect yn adroddiad y Swyddog.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) cadarnhau Blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer mesur 4.4 Rhaglen y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop fel Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt a Thŷ Du i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn y Fwrdeistref Sirol;

(ii) bod yr ariannu cyfatebol cychwynnol o £1.07m yn cael ei sefydlu i sicrhau hyd at £2.58 miliwn o grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a £0.35 miliwn posibl o arian Llywodraeth Cymru; i gael eu cymeradwyo

(iii) cymeradwyo cyllid o £1.07miliwn o Gronfa Gyfalaf y Cyngor;

(iv) pan fydd y Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd yn sefydlu Cronfa Fuddsoddi Ehangach a dyrannu adnoddau i ddarpariaeth cyflogaeth newydd, bod y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cael ei awdurdodi i gyflwyno cais am yr ariannu cyfatebol angenrheidiol ar gyfer cyflwyno prosiectau Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt a Tŷ Du, gael eu cymeradwyo;

(v) cymeradwyo trefniant cydweithredol y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni datblygiad llawn y safle defnydd cymysg yn Nhŷ Du, Nelson;

(vi) i ymrwymo i gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Benaethiaid Termau a gyflwynwyd gan LlC gyda chymeradwyaeth y Penaethiaid Termau terfynol yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Adfywio Dros Dro mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Eiddo a'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Aelod Cabinet perthnasol, a dylid awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol/y Prif Gyfreithiwr i ymrwymo i'r Cytundeb ar ran y Cyngor, i'w gytuno mewn egwyddor;

(vii) pe bai grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropychwanegol ar gael, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau ariannu cyfatebol i weithredu'r camau pellach ar safleoedd y Lawnt a Thŷ Du, i gael eu cytuno.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.14pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 14eg Mawrth, 2018.

____________________

CADEIRYDD